Cyngor Bro Llanllwni 9 Mai 2016

Cyng Dewi Davies (Cadeirydd)
Eirlys Owen (Clerc)

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol yn Neuadd Gymunedol Llanllwni am 8.00yh. Cyflwynwyd mantolen flynyddol i'r aelodau, ac arwyddwyd y ffurflenni priodol gan yr is-gadeirydd. Nid oedd aelod o'r cyhoedd yn bresennol, a chynhaliwyd y cyfarfod arferol am 8.30yh.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Dymunwyd yn dda i Dewi Thomas.

TROSGLWYDDO'R GADAIRYDDIAETH.
Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf a dymunwyd yn dda i'r Cadeirydd newydd sef Eric Davies.

Aeth y Cadeirydd newydd i'r gadair a pharau â'r cyfarfod.

Diolchodd y Cadeirydd i Dewi Davies am ei waith yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, ac am ei waith o fewn y gymuned dros y blynyddoedd. Etholwyd David Thorne yn is-gadeirydd am y flwyddyn nesaf.

Y CAE CHWARAE:
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Tom Jones ac Eric Davies. Nid oedd dim damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae. Nodwyd gan Eric Davies bod angen glanhau'r matiau.

TOILEDAU:
Roedd y Clerc i wneud trefniadau i osod toiledau ar y cae chwarae rhwng 01 Mehefin a 30 Medi 2016.

GWEFAN LLANLLWNI:
Yr oedd y gwaith wedi ei gwblhau a'r wefan yn weithredol.

RHOS UCHAF:

Diolchwyd i Eric Davies ac Eurig Thomas am roi'r cafn blodau yn ei le. Roedd angen anfon llythyr o ddiolch at T.L Thomas a'i Fab am gasglu'r cafn o Lanwnen a'i gludo i'r safle.

MYNYDD LLANLLWNI

Cais i gydweithio i gynnau tân ar Fynydd Llanllwni i ddathlu penblwydd y Frenhines yn 90 oed. Roedd Clerc Cyngor Bro Llanfihangel Rhos y Corn wedi cysylltu'r â'r Clerc ers y cyfarfod diwethaf, ac roedden nhw o'r un farn, sef peidio cynnau tân ar y mynydd.

PARCIO GWRTHGYMDEITHASOL

Nodwyd bod ceir yn parcio ar y palmant ac ar y ffordd ger Garej Celtic Classics gan achosi trafferthion ar y ffordd ac anawsterau ar y palmant. Penderfynwyd yn unfrydol gysylltu â Linda Evans am ragor o wybodaeth, cyn cysylltu â Swyddog Diogelwch y Cyngor Sir. Tynnwyd sylw at anhawster i yrrwyr wrth ddod allan o hewl Pantllyn ac o Parklane. Awgrymwyd gosod llinellau melyn.

Derbyniwyd gair o ddiolch gan y mudiadau canlynol: Gofal Mewn Galar, Teenage Cancer Trust, Eisteddfod Urdd Gobaith Cymru 2016, Eisteddfod Genedlaethol 2016, Clefyd y Galon (Ardal Llanybydder).